COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN ADRODDIAD / PENDERFYNIAD CRYNO

DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD – CYF. DLI 025

Amseru: Arferol

Teitl: Gweinyddu'r Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr

Categori Penderfyniad / Effaith ar Faes Busnes: Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr

Crynodeb Gweithredol:
Ers mis Mai 2014, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi comisiynu'r Prif Gwnstabl i weinyddu'r Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr (darparwyd y gwasanaeth hwn gan ddarparwr allanol yn flaenorol). Cyhoeddodd y Comisiynydd gytundeb blwyddyn i gychwyn er mwyn asesu pa un ai a allai tîm mewnol yr Heddlu ddarparu gwasanaeth a oedd yn addas a llwyddiannus. Adnewyddwyd y cytundeb hwn yn 2015 a 2016.

Bellach, mae'r tîm sy'n darparu'r gwasanaeth hwn wedi dangos ei fod yn medru cyflwyno'r gwasanaeth yn llwyddiannus, ac argymhellir bod tîm mewnol yr Heddlu'n parhau i weinyddu'r Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr heb fod angen cyhoeddi cytundebau blynyddol i'r Prif Gwnstabl. Mae hyn yn cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd i'r tîm ar gyfer y dyfodol.

Pe bai amgylchiadau'n newid yn sylweddol yn y dyfodol, argymhellir adolygu'r ymagwedd hon er mwyn sicrhau ei haddasrwydd parhaus.

Argymhelliad:

Bod tîm mewnol yr Heddlu'n gweinyddu'r Cynllun Ailhyfforddi Gyrwyr am y dyfodol hyd y gellir rhagweld.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Rwy'n cadarnhau fy mod i wedi ystyried pa un ai a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu niweidiol yn y mater hwn ac yn cymryd y penderfyniad a gynigir mewn cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod:

Dyddiad: 18/01/2017